# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaethau Democrataidd**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU**

Dyddiad ac Amser

**10.30 y.b., DYDD MERCHER, 28AIN MEDI, 2022**

*** NODER ***

**Bydd y cyfarfod yn cael ei we-ddarlledu**

**https://gwynedd.public-i.tv/core/l/cy_GB/portal/home**

**NODER: CYNHELIR SESIWN BRIFFIO I'R AELODAU AM 10:15yb**

Lleoliad

**Aml-leoliad**

**Siambr Hywel Dda, Swyddfa'r Cyngor, Caernarfon, Gwynedd. LL55 1SH, LL55 1SH**

**Ac yn rhithiol drwy ZOOM**

Pwynt Cyswllt

**Rhodri Jones**

**01286 679326**

**Rhodrijones1@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd 15 Medi 2022)

# PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU

## AELODAETH (18)

## Plaid Cymru (11)

Y Cynghorwyr

| | | |
|---|---|---|
| Elwyn Edwards | Delyth Lloyd Griffiths | Annwen Hughes |
| Elin Hywel | Kim Jones | Linda Morgan |
| Edgar Wyn Owen | Llio Elenid Owen | Arwyn Herald Roberts |
| Beca Roberts | Rhys Tudur | |

## Annibynnol (6)

Y Cynghorwyr

| | |
|---|---|
| Gwilym Jones | Robert Glyn Daniels |
| Peter Thomas | Elfed Powell Roberts |
| Gruffydd Williams | Rob Triggs |

## Democratiaid Rhyddfrydol / Llafur

Y Cynghorydd Stephen Churchman

## Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

# R H A G L E N


## 1. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn unrhyw ymddiheuriad am absenoldeb.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

I dderbyn unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

## 3. MATERION BRYS

I nodi unrhyw faterion o frys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

## 4. COFNODION 4 - 5

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 06 Gorffennaf, 2022 fel rhai cywir.

## 5. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS GWYNEDD AC YNYS MÔN 6 - 12

Adolygu Adroddiad Blynyddol Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn a diweddariad ar waith yr is-grwpiau.

## 6. BINIAU HALEN - DIWEDDARIAD GWASANAETH CYNNAL GAEAF 13 - 14

I ddiweddaru'r Pwyllgor ar reolaeth biniau halen fel rhan o'r Gwasanaeth Cynnal Gaeaf.

## 7. DIWEDDARIAD - DATBLYGIADAU YN Y MAES CLUDIANT CYHOEDDUS 15 - 26

I ddiweddaru'r Pwyllgor am y gwaith wrth law i'r Pwyllgor eu hystyried.

## 8. BLAENRAGLEN PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU 2022/23 27 - 29

Cyflwyno rhaglen waith ddrafft y Pwyllgor ar gyfer 2022/23 i'w mabwysiadu.

# PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU, 6 GORFFENNAF 2022

**Yn bresennol:**

**Y Cynghorwyr:** Annwen Hughes, Beca Roberts, Delyth Lloyd Griffiths, Edgar Owen, Elfed Powell Roberts, Elin Hywel, Elwyn Edwards, Gruffydd Williams, Gwilym Jones, Kim Jones, Linda Morgan, Llio Elenid Owen, Rob Triggs, Robert Glyn Daniels, Rhys Tudur, Stephen Churchman.

**Swyddogion:** Llywela Owain (Uwch Ymgynghorydd Iaith a Chraffu), Bethan Adams (Ymgynghorydd Craffu), Rhodri Marc Jones (Swyddog Gwasanaeth Democratiaeth), Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth) ac Einir Rhian Davies (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

**Yn bresennol ar gyfer eitem 8:**

Dafydd Wyn Williams (Pennaeth Adran Amgylchedd) a Bethan Richardson (Rheolwr Rhaglen Newid Hinsawdd).

1. **ETHOL CADEIRYDD**

   **PENDERFYNWYD** ethol y Cynghorydd Elin Hywel yn Gadeirydd y Pwyllgor ar gyfer y flwyddyn 2022/23.

2. **ETHOL IS-GADEIRYDD**

   Cynigwyd ac eiliwyd dau enw ar gyfer y rôl, sef y Cynghorydd Kim Jones a'r Cynghorydd Glyn Daniels.

**PENDERFYNWYD** ethol y Cynghorydd Kim Jones yn Is-Gadeirydd y Pwyllgor ar gyfer y flwyddyn 2022/23.

3. **YMDDIHEURIADAU**

   Derbyniwyd ymddiheuriad gan y Cynghorydd Arwyn Herald Roberts a'r Cynghorydd Dyfrig Siencyn (Arweinydd y Cyngor).

4. **DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

   Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

5. **MATERION BRYS**

   Datganwyd pryder am gydbwysedd gwleidyddol aelodaeth y pwyllgor ac y gallai gwaith y Pwyllgor fod yn ymarferiad sêl bendith.

   Sicrhaodd y Cadeirydd y byddai'r pwyllgor yn ymgymryd â'i rôl o graffu gwaith y Cyngor a'r Cabinet.

   Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod, nododd yr Ymgynghorydd Craffu nad oedd rheol benodol o ran dynodi'r is-gadeiryddiaeth i grŵp gwleidyddol. Cadarnhaodd mai'r gadeiryddiaeth oedd yn cael ei ddynodi i grŵp gwleidyddol ac y cynhelir adolygiad blynyddol o ddyraniad cadeiryddiaethau craffu.

**6. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 10 Mawrth 2022 fel rhai cywir.

**7. MONITRO PERFFORMIAD**

Gwahoddwyd enwebiadau ar gyfer mynychu cyfarfodydd herio perfformiad. Eglurwyd bod tri maes gwaith penodol i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau - Amgylchedd, Priffyrdd a Bwrdeistrefol ac Ymgynghoriaeth Gwynedd. Tynnwyd sylw at 'Ganllaw Herio Perfformiad i Aelodau Craffu' a oedd wedi ei gynnwys yn y rhaglen.

**PENDERFYNWYD:**

- Ethol y Cynghorwyr Rhys Tudur ac Linda Morgan i fynychu cyfarfodydd herio perfformiad maes gwaith Amgylchedd.

- Ethol y Cynghorwyr Stephen Churchman ac Arwyn Herald Roberts i fynychu cyfarfodydd herio perfformiad maes gwaith Priffyrdd a Bwrdeistrefol.

- Ethol y Cynghorwyr Rob Triggs a Llio Elenid Owen i fynychu cyfarfodydd herio perfformiad maes gwaith Ymgynghoriaeth Gwynedd.

**8. BWRDD HINSAWDD A NATUR**

Gosodwyd cefndir a chyd-destun i'r adroddiad gan y Pennaeth Amgylchedd. Eglurodd bod Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur wedi ei fabwysiadu gan y Cabinet ar 8 Mawrth 2022. Manylodd ar aelodaeth y Bwrdd Hinsawdd a Natur a oedd yn cynnwys Aelodau Cabinet a Phenaethiaid Adran yn y prif feysydd perthnasol. Gofynnwyd i'r Pwyllgor ethol cynrychiolydd ar gyfer y Bwrdd Hinsawdd a Natur.

**PENDERFYNWYD** ethol y Cynghorydd Beca Roberts i gynrychioli'r Pwyllgor ar y Bwrdd Hinsawdd a Natur.

Dechreuodd y Cyfarfod am 10:00yb a gorffennodd am 10:30yb.

---

**CADEIRYDD**

| Pwyllgor | Pwyllgor Craffu Cymunedau |
|---|---|
| **Dyddiad** | **15fed o Fedi 2022** |
| **Teitl** | Adroddiad Blynyddol y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn |
| **Aelod Cabinet** | **Y Cynghorydd Dyfrig Siencyn** |
| **Pwrpas** | Adolygu Adroddiad Blynyddol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn a diweddariad ar waith yr is-grwpiau |

**1. Cyflwyniad a chyd-destun**

**1.1** Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn rhoi dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r ddeddf yn seiliedig ar yr egwyddor o ddatblygiad cynaliadwy ac mae'n gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i osod a chyhoeddi amcanion llesiant a chymryd pob cam rhesymol i gyflawni'r amcanion hynny. Hefyd, sefydlodd y Ddeddf Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus gyda chynrychiolaeth gan gyrff cyhoeddus allweddol. Bob pum mlynedd, mae'n rhaid i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus baratoi a chyhoeddi asesiad o gyflwr llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol yn eu hardaloedd a defnyddio hyn fel sail i'r Cynllun Llesiant ar gyfer y pum mlynedd i ddod.

**1.2** Rydym bellach ym mlwyddyn olaf Cynllun Llesiant 2017-22 ar gyfer Gwynedd a Môn, lle roedd y Bwrdd wedi blaenoriaethu chwe mater:

- Yr iaith Gymraeg;
- Tai i bobl leol;
- Effaith tlodi ar lesiant ein cymunedau;
- Effaith newid hinsawdd ar lesiant cymunedau;
- Iechyd a gofal oedolion a
- Llesiant a chyflawniad plant a phobl ifanc.

**1.3** Dros y pum mlynedd, mae'r Bwrdd wedi addasu ei ddull tuag at y blaenoriaethau Tai i bobl lleol a Effaith tlodi ar lesiant ein cymunedau. Gan fod nifer o aelodau'r Bwrdd eisoes yn cydweithio i ymateb i'r materion hyn, cytunwyd mai rôl y Bwrdd felly fyddai i gadw trosolwg o'r gwaith a cheisio sicrwydd ein bod ni fel cyrff cyhoeddus yn ymateb yn briodol.

**1.4** I ymdrin â'r blaenoriaethau sydd ar ôl, mae gan y Bwrdd dri is-grŵp gweithredol ar hyn o bryd:

- Newid Hinsawdd
- Iechyd a Gofal Cymdeithasol Integredig
- Yr Iaith Gymraeg

**1.5** Yn ystod 2021/22, fe gwblhaom y broses o adolygu'r Asesiadau Llesiant. Mae'r rhain yn cael eu cynnal ar gyfer 13 o wahanol ardaloedd - 8 yng Ngwynedd a 5 yn Ynys Môn - a byddant yn hysbysu un Cynllun Llesiant ar gyfer Gwynedd a Môn ar gyfer y cyfnod 2023-2028.

Bu i'r Asesiadau dynnu at ei gilydd amrediad o wybodaeth am gymunedau Gwynedd a Môn. Fe edrychom ar y gwaith ymchwil mwyaf cyfredol, casglu data ac ymgysylltu â'n grwpiau cymunedol i ddod i wybod beth sy'n dda am ein cymunedau, a beth sydd ddim cystal. Defnyddiwyd y grant BGC rhanbarthol i gomisiynu Prifysgol Glyndŵr i gydweithio ar yr asesiadau llesiant yng ngogledd Cymru. Yn ogystal, mae gweithdy rhanbarthol wedi'i drefnu er mwyn clywed gan grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol, mewn perthynas â materion sy'n effeithio ar eu llesiant.

Cyhoeddwyd yr Asesiadau Llesiant ym mis Mai 2022 a maent yn gyfle i ni ystyried yr heriau a'r cyfleoedd y mae ein cymunedau yn eu wynebu; yn enwedig effeithiau'r pandemig Covid-19 a Brexit. Byddant nawr yn gosod y cyfeiriad i flaenoriaethau'r Bwrdd ar gyfer y Cynllun Llesiant 2023-28 a gyhoeddir ym mis Mai 2023.

## 2.0 Adlewyrchu ar y flwyddyn a fu ac edrych ymlaen at y flwyddyn sydd i ddod

Gyda chefnogaeth y tîm yn Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru, rydym wedi cynnal gweithdai sy'n galluogi aelodau’r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i adlewyrchu ar p'un a yw'r blaenoriaethau presennol yn parhau i fod yn berthnasol ac adolygu ein rôl a'n pwrpas fel Bwrdd wrth symud ymlaen. O ystyried y rhwydwaith gwych o gydweithio ar draws yr ardal, cydnabuwyd ei bod yn her canfod y mannau hynny lle y gall y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ychwanegu'r gwerth mwyaf.

Mae aelodau'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn awyddus i wneud cyfraniad ystyrlon i dirwedd y bartneriaeth heb ddyblygu gwaith partneriaethau eraill ac felly bydd y Cynllun Llesiant nesaf yn glir o ran p'un a oes gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus rôl arweiniol neu gyflawni mewn perthynas â'r blaenoriaethau llesiant.

Ar hyn o bryd, rydym yn gwneud cynnydd o ran datblygu'r Cynllun Llesiant ac rydym wedi defnyddio'r gweithdai i asesu'n benodol lle y gallwn gael yr effaith mwyaf. Dros fisoedd y gaeaf, byddwn yn mynd ati i gynnal ymarferiad ymgysylltu ysgafn ar y Cynllun Llesiant drafft gyda'r bwriad o gyhoeddi'r cynllun terfynol gyda nodau manwl ym mis Mai 2023.

### 3.0 Diweddariad ar waith yr is-grwpiau.

### 3.1 Amcan 1 - Cymunedau sy’n ffynnu ac yn llewyrchus i’r hirdymor

#### 3.1.1 Is-grŵp yr iaith Gymraeg:

| **Pam bod hyn yn bwysig i drigolion Gwynedd a Môn?** |
|---|
| Mae'r Bwrdd yn deall pa mor bwysig yw'r iaith Gymraeg i'n cymunedau ledled Gwynedd a Môn, a’i bod yn rhan o wead cymdeithasol a hunaniaeth ddiwylliannol yr ardal. Mae medru byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg a chael mynediad at wasanaethau a gweithgareddau yn y Gymraeg yn bwysig i'n cymunedau ac rydym wedi ymrwymo i weithio gyda'n gilydd i gynyddu'r defnydd a wneir o'r iaith Gymraeg o fewn cyrff cyhoeddus yng Ngwynedd a Môn. Rydym hefyd wedi ymrwymo i hyrwyddo'r Gymraeg fel yr iaith o ddewis ar gyfer cyfathrebu ymysg sefydliadau cyhoeddus ar draws y ddwy sir.<br><br>Wrth gwrs, mae'r argyfwng Covid-19 wedi cyflwyno rhai heriau arwyddocaol i sefydliadau wrth iddynt geisio sicrhau parhad eu gwasanaethau. Mae'r amodau a'r cyfyngiadau o ran gweithio yn rhithiol, ynghyd ag anallu grwpiau cymunedol i ddod ynghyd, wedi ei gwneud yn anodd cynnal rhai gwasanaethau a chyfleoedd i ddefnyddio'r iaith Gymraeg. Fel cyrff cyhoeddus, rydym wedi ceisio sicrhau bod y dinesydd yn parhau i ymgysylltu â'r cyrff cyhoeddus yn ei ddewis iaith, ac rydym yn parhau i fod yr un mor angerddol am gyfrannu at darged Llywodraeth Cymru o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. |
| **Diweddariad ar y gwaith hyd yma:** |
| Yn ystod 2021/22, mae'r is-grŵp wedi ymgymryd â phrosiect sy'n ymwneud ag ymddygiad ieithyddol mewn derbynfeydd. Y nod oedd peilota ymyraethau gwahanol er mwyn medru darparu canllawiau i staff derbynfeydd o wahanol sefydliadau ar sut i annog y defnydd a wneir |

o'r Gymraeg, gyda'r bwriad o gynyddu hyder y cyhoedd i ddefnyddio'r Gymraeg wrth ymgysylltu â chyrff cyhoeddus.

- Yr amcan oedd normaleiddio'r iaith Gymraeg wrth i bobl fynd o gwmpas eu busnes cyhoeddus, ac yn y pen draw, arwain at fwy o bobl yn defnyddio gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg a chynnydd yn nifer y bobl sy'n ceisio ac yn disgwyl hynny gan bob math o sefydliadau. O safbwynt y trigolion, yn aml mae'n haws iddynt fynegi eu hunain yn eu mamiaith, yn enwedig wrth drafod materion sensitif a phersonol, felly'r nod yw symleiddio'r broses o dderbyn cefnogaeth briodol.

Yn wreiddiol, cafodd y prosiect hwn ei gymeradwyo gan aelodau'r Bwrdd ym mis Mawrth 2020, ond bu'n rhaid ei oedi oherwydd cyfyngiadau'r cyfnod clo. Adolygwyd ac addaswyd y cynnig gwreiddiol ar gyfer y prosiect er mwyn rhoi ystyriaeth i'r newidiadau yn y ffordd y mae'r cyhoedd yn cyfathrebu â sefydliadau cyhoeddus a newid yn rôl derbynfeydd ar ôl y pandemig.

Yn ystod 2022, bu i'r prosiect fynd rhagddo ac fe gomisiynwyd IAITH i gynnal y gwaith maes, sy'n cynnwys:

- Gweithio gyda 10 gwasanaeth derbynfa peilot ar draws gwahanol sefydliadau sector cyhoeddus yng Ngwynedd a Môn a mynd ati'n ffurfiol i arsylwi ar y rhyngweithio rhwng cwsmeriaid a staff yn y lleoliadau hyn.
- Cynnal grwpiau ffocws a holiaduron gyda'r staff a siarad â chwsmeriaid i adnabod rhwystrau i ymgysylltu yn eu dewis iaith.
- Dadansoddiad o’r data gwaelodlin a chymharu hyn â'r data ar ôl yr ymyrraeth.

Mae'r adroddiad a'r argymhellion ar gyfer cyflwyno hyn yn ehangach i fod i gael eu cyflwyno i'r Bwrdd ym mis Hydref 2022.

Hefyd, mae'r is-grŵp yn ystyried prosiectau posib eraill i ymdrin â'r ymrwymiad yng Nghynllun Llesiant Gwynedd a Môn fel bod modd rhoi rhaglen waith yn ei lle ar gyfer y flwyddyn i ddod.

**Sut mae'r is-grŵp yn cyfrannu at Ddeddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015?**

Mae'r is-grŵp yn gweithredu nifer o'r ffyrdd o weithio sydd wedi'u datblygu fel rhan o egwyddor datblygu cynaliadwy'r Ddeddf, ynghyd â'r ffyrdd ychwanegol sydd wedi'u cytuno gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, sef yr iaith Gymraeg a Chydraddoldeb drwy:

- sicrhau bod yr **iaith Gymraeg yn** rhan naturiol o waith Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn
- **cydweithio** i godi ymwybyddiaeth, rhannu arfer dda, datblygu sgiliau a hyder y gwasanaethau cyhoeddus i ddefnyddio'r Gymraeg â defnyddwyr gwasanaeth a'u hannog i ddefnyddio'r iaith dro ar ôl tro
- **cynnwys** barn y rhan-ddeiliaid perthnasol wrth iddynt gyflwyno prosiectau newydd.

### 3.1.2 Is-grŵp Newid Hinsawdd:

**Pam bod hyn yn bwysig i drigolion Gwynedd a Môn?**

Sefydlwyd is-grŵp Newid Hinsawdd i annog cydweithio ymysg sefydliadau cyhoeddus ar liniaru effaith newid hinsawdd, ac yn enwedig effaith llifogydd arfordirol a mewndirol ar ein cymunedau. Rydym wedi adnabod yr angen i addysgu a gweithio gyda'n cymunedau i'w paratoi ar gyfer heriau presennol newid hinsawdd a'r rhai sy'n ein wynebu i'r dyfodol. Y nod yw ceisio

| |
|---|
| lliniaru'r effaith y mae unrhyw achos o dywydd eithafol yn ei chael ar y cymunedau hynny. Yn ystod y cyfnod clo, bu i nifer ohonom sylwi ar bwysigrwydd yr amgylchedd naturiol - roeddem yn defnyddio llai ar ein ceir ac fe welsom effeithiau positif hynny ar ansawdd yr aer a dŵr. |
| **Diweddariad ar y gwaith hyd yma:** |
| Er bod yr argyfwng Covid-19 wedi mynd â'n sylw dros y ddwy flynedd ddiwethaf, mae materion newid hinsawdd yn parhau i fod yn her fawr i ni. Ni allwn gwrdd â'r heriau sydd o'n blaenau ar ein pennau ein hunain, felly bydd yn hanfodol i ni ymdrin â hyn ar y cyd.<br><br>Yn ystod 2020/21, comisiynodd Cyfoeth Naturiol Cymru waith i edrych ar ddull rhanbarthol o liniaru effaith Newid Hinsawdd. Gwnaed hyn ar ran yr holl Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yng ngogledd Cymru a Bwrdd Arweinyddiaeth Gogledd Cymru. Y prif allbwn oedd cytundeb i gydweithio ar draws y sector cyhoeddus yng ngogledd Cymru i ymateb i'r her drwy sefydlu grŵp Newid Hinsawdd i ogledd Cymru. Prif nod y grŵp hwn yw cyflawni nodau Llywodraeth Cymru i leihau allyriadau carbon. Mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn wedi canolbwyntio ar barhau i ddarparu ymateb lleol i heriau newid hinsawdd.<br><br>Yn dilyn cyfres o weithdai gyda nifer fawr o sefydliadau a wahoddwyd, bu iddynt gyfrannu a chytuno ar gynlluniau gweithredu tymor byr, tymor canolig a thymor hir. Yn ogystal, mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cynnal sgyrsiau â'n cymunedau fel rhan o'u Datganiadau Ardal. Roedd y sgyrsiau yn rhoi cyfle i ni feddwl am beth yr ydym angen ei wneud fel unigolion, cymunedau a sefydliadau i ymateb i Newid Hinsawdd. Mae'r canfyddiadau a'r negeseuon allweddol o'r sgyrsiau hyn wedi cael eu hystyried gan yr is-grŵp newid hinsawdd ac mae cynllun gweithredu ar gyfer y flwyddyn i ddod yn cael ei baratoi. |
| **Sut mae'r is-grŵp yn cyfrannu at Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015?** |
| Mae'r is-grŵp yn gweithredu nifer o'r ffyrdd o weithio sydd wedi'u datblygu fel rhan o egwyddor Datblygu Cynaliadwy'r Ddeddf drwy:<br><br>• ddeall anghenion y cymunedau penodol sy'n ein galluogi i gynllunio ar gyfer y **tymor hir**<br>• **gweithio gyda** nifer o gyrff cyhoeddus a'n cymunedau<br>• **cynnwys** ein rhan-ddeiliaid fel rhan hanfodol o waith yr is-grŵp |

### 3.2 Amcan 2 - Trigolion sy'n Iach ac yn annibynnol gyda safon bywyd da

Mae dau faes blaenoriaeth 'Iechyd a Gofal oedolion' a 'Lles a llwyddiant plant a phobl ifanc' yn cyfarch amcan 2. Cytunwyd i sefydlu un is-grŵp i gyfarch y ddwy flaenoriaeth sef Grŵp integredig Iechyd a Gofal Cymdeithasol y Gorllewin.

#### 3.2.1 Yr Is-grŵp Iechyd a Gofal Cymdeithasol Integredig (AISB)

| **Pam bod hyn yn bwysig i drigolion Gwynedd a Môn?** |
|---|
| Pwrpas yr is-grŵp iechyd a gofal cymdeithasol yw sefydlu trefn gydweithio yn y sector a chynnal trosolwg o ddatblygiad a thrawsnewid gwasanaethau, a'r modd yr ydym yn cefnogi unigolion yn ein cymunedau.<br>Profodd y gwaith ym maes iechyd a gofal cymdeithasol yn allweddol bwysig wrth i ni ddelio ag argyfwng Covid-19 a symud i gefnogi adferiad. Mae ffyrdd newydd o weithio wedi'u datblygu'n rhithiol sydd wedi bod o fudd mawr i'r timau amlddisgyblaethol. Dangoswyd parodrwydd i gydweithio ac addasu i amgylchiadau gwaith heriol iawn. |

| Diweddariad ar y gwaith hyd yma yn ardal Cyngor Gwynedd: |
|---|
| **Anableddau dysgu – Gwynedd:**<br>• Sefydlu Tîm Llesiant o fewn y gwasanaeth sy'n hyrwyddo lles unigolion ag Anableddau Dysgu trwy sesiynau cymdeithasol, gwaith grŵp a gwaith 1:1. Mae llawer o'r gweithgareddau wedi gorfod newid eu ffurf oherwydd y pandemig, ond dyma rai enghreifftiau – grŵp celf, côr Makaton, sefydlu gorsaf radio 'Lleisiau Llawen', sesiynau pêl-droed, grwpiau cerdded, a.y.b.<br>• Datblygu cynlluniau ar gyfer yr Hyb Cymunedol ar safle Dolfeurig, Dolgellau, a fydd yn adnodd mwy addas ar gyfer cefnogi unigolion ag Anableddau Dysgu, law yn llaw â gweddill y gymuned. Bu peth oedi gyda'r gwaith oherwydd materion cynllunio, ond mae'r gwaith yn parhau ac mae'r gwaith adeiladu wedi dechrau yn haf 2022. Tra bod y gwaith hwn yn mynd rhagddo, byddwn yn gwneud defnydd dros dro o Neuadd Gymunedol Llanelltud ac adnoddau dros dro eraill i sicrhau darpariaeth yn yr ardal. Y gobaith, maes o law, yw y bydd gennym ni rwydwaith o hybiau ar draws y sir – yng Nghaernarfon, Y Felinheli, Y Ffôr a Dolgellau.<br>• Cychwyn prosiect hyfforddiant a chyfleoedd gwaith, edrych i hyrwyddo cyfleoedd hyfforddiant a chyfleoedd gwaith i oedolion ag Anableddau Dysgu yng Ngwynedd, gan ddefnyddio Glynllifon fel 'canolfan hyfforddiant a datblygu sgiliau'.<br>• Cychwyn prosiect 'Cwrs a Sgwrs' yn ardal Y Ffôr - bydd hyn maes o law yn creu cyfleoedd gwaith i unigolion ag Anableddau Dysgu i greu, coginio a dosbarthu pryd poeth ar glud i unigolion bregus yn y cymunedau cyfagos. Mae'r gwaith wedi dechrau ar ôl uwchraddio cegin ddiwydiannol fel ei bod yn addas i'r diben, wedi'i hariannu gan grant.<br>• Cydweithio agosach gyda Gwasanaeth Eiriolaeth Gogledd Cymru, er mwyn sicrhau mewnbwn a llais i unigolion ag Anableddau Dysgu yn ein holl benderfyniadau.<br>**Pobl hyn – Gwynedd:**<br>• Mae gwaith ar y Rhaglen Trawsnewid Iechyd a Gofal Cymunedol yn mynd rhagddo gyda phwyslais ar integreiddio'r diwylliant hanfodol o fewn y pum Tîm Adnoddau Cymunedol a grymuso arweinwyr a staff i sicrhau eu bod yn cadw'r hyn sy'n bwysig i'r unigolion wrth wraidd eu gofal. Mae'r timau hyn, sy'n cynnwys staff iechyd, gofal, y trydydd sector a'r sector annibynnol, yn cael cyswllt rheolaidd ar lefel ardal; rhannu gwybodaeth ac adnoddau, cydweithio i ddeall y sefyllfa leol a mynd i'r afael ag unrhyw rwystrau. Mae elfennau eraill o'r rhaglen yn cynnwys prosiectau sy'n hwyluso rhyddhau o'r ysbyty, prosiect ar gyfer rhannu gwybodaeth ar draws asiantaethau, a'r prosiect ar ail-ddylunio gofal cartref ar draws y sir.<br>• Mae'r gwaith o ddatblygu'r model newydd o ddarpariaeth gofal cartref yn parhau a bellach mae nifer o dimau gofal cartref y Cyngor wedi symud i weithio ar batrymau sifft, sy'n cynnig gwell hyblygrwydd i'r unigolion sy'n derbyn gofal a gwell sefydlogrwydd i staff.<br>• Yn ogystal, cwblhawyd yr addasiadau yn Nolgellau yn gynnar yn 2022 sy'n cynnig gofal pwrpasol i unigolion ag anghenion corfforol difrifol. Gobeithiwn y bydd yr adnoddau hyn yn gymorth i gwrdd ag amrywiol anghenion pobl Gwynedd, ac yn hybu annibyniaeth ac urddas. Mae gwaith ar ddatblygu cyfleuster Tai Gofal Ychwanegol ym Mhwllheli yn parhau, dan arweiniad cymdeithas dai Adra.<br>• Amlygodd argyfwng Covid-19 yr heriau recriwtio yn fwy nag erioed yn y maes, ac mae'n arbennig o amlwg yn y maes gofal cartref gan i ni fethu â darparu pecynnau gofal mewn rhai amgylchiadau oherwydd diffyg staff. Rydym wedi bod yn ymdrechu i geisio deall yn |

well yr her sy’n bodoli ar draws y maes, ac mewn ymateb i hyn datblygwyd rhaglen waith mewn ymgais i fynd i’r afael â rhai o’r pryderon. Bydd y gwaith o sefydlu system darparu gofal cartref newydd yn cael effaith gadarnhaol ar elfennau megis cyflogau staff rheng flaen yn y sector preifat, hyd cytundebau gwaith a hyrwyddo llwybrau gyrfa yn y maes. I gyd-fynd â’r gwaith hwn, cynhaliwyd ymgyrch eleni i gynyddu maint y gweithlu gofal yn y maes Oedolion er mwyn ymateb i brinder y gweithlu er mwyn sicrhau parhad gwasanaeth. Sefydlwyd ymgyrch #SOSGalwGofalwyr mewn ymgais i recriwtio dros 100 o staff newydd, yn rhan amser ac yn llawn amser.

**Iechyd meddwl – Gwynedd:**

- Mae'r Cyngor yn parhau i weithio gyda'r Bwrdd Iechyd i ddatblygu gwasanaethau iechyd meddwl y sir, ac mae gwaith ar y canolfannau ICAN yn canolbwyntio ar ymyrraeth gynnar, mewn cydweithrediad â sefydliadau trydydd sector. Mae’r gwasanaeth hwn yn darparu siop un stop ar gyfer unigolion sydd angen cymorth, ac mae’n ein galluogi i wneud y cyswllt rhyngddynt ag unrhyw asiantaethau tai, Canolfan Cyngor ar Bopeth, ac ati yn ôl yr angen er mwyn eu helpu gyda materion sy’n achosi straen a straen iddynt. cael effaith negyddol ar eu hiechyd meddwl. Yn ystod argyfwng Covid-19, darparwyd y cymorth hwn fwy neu lai i ystod eang o unigolion.

**Plant – Gwynedd:**

- Gwaith i ddeall beth sy'n bwysig i deuluoedd Gwynedd, cytuno ar egwyddorion, a ffyrdd o wella'r hyn rydym yn ei wneud a sut rydym yn gweithio er mwyn darparu'r gefnogaeth angenrheidiol yn mynd rhagddo. Yn ogystal, rydym yn datblygu strategaeth "Cadw Teuluoedd Gyda'n Gilydd" a fydd yn ceisio osgoi dod â phlant rhag dod i ofal yn ddiangen; fodd bynnag, os oes angen gofal, yna sicrhewch fod y plentyn yn derbyn gofal mewn lleoliad addas, priodol a lleol; a bod pob ymdrech a chefnogaeth yn cael eu darparu er mwyn dychwelyd plant at eu teuluoedd.
- Er bod y pandemig wedi gohirio’r rhaglen drawsnewid “Sicrhau darpariaeth leol arbenigol briodol ar gyfer plant gyda’r anghenion mwyaf cymhleth”, mae gwaith wedi ail ddechrau ar y prosiect ar y cyd gyda’r Bwrdd Iechyd a Chyngor Môn. Mae'r Tîm Aml-asiantaeth yn ei le ers mis Medi; ac mae'r rhaglen hyfforddi i uwchsgilio'r gweithlu presennol i gefnogi plant ag anghenion cymhleth mewn timau iechyd, addysg a gofal cymdeithasol yn parhau.
- Mae grŵp prosiect wedi ei sefydlu ac wedi cwblhau adolygiad o brofiadau presennol teuluoedd gyda phlant awtistig. Mae’r grŵp wedi creu Cynllun Awtistiaeth drafft, sy’n dangos beth sydd angen ei wneud mewn ymateb i’r argymhellion yn yr adolygiad ac mae’r cynllun i’w gyflwyno i’r Cabinet yn fuan. Sicrhawyd cyllid i benodi Cydgysylltydd i fwrw ymlaen â gweithredu'r cynllun, a bydd y broses recriwtio yn cychwyn yn fuan.
- Mae’r gwaith o gefnogi llesiant pobl dros y misoedd diwethaf wedi parhau i ganolbwyntio ar ymateb i heriau a sgil-effeithiau’r pandemig. Mae trefniadau Gorchwyl a Gorffen wedi’u rhoi ar waith ar gyfer y ffrydiau gwaith sydd wedi’u blaenoriaethu ac mae rhai o’r ffrydiau gwaith hynny’n symud ymlaen yn dda megis atal digartrefedd, cymorth i ofalwyr di-dâl, lles plant a phobl ifanc. Mae angen rhagor o waith i gadarnhau trefniadau mewn ffrydiau gwaith eraill megis Cydnerthedd Cymunedol, Drysau Ffrynt Gwasanaethau’r Cyngor a Threchu Tlodi.
- Mae’r newidiadau i Gredyd Cynhwysol, costau byw cynyddol fel bwyd a thanwydd, dros yr ychydig fisoedd diwethaf yn destun pryder ac mae gwaith parhaus ar y gweill gyda’n

| |
|---|
| partneriaid i gynyddu ein gallu i helpu preswylwyr gyda chyngor ariannol, delio â dyled, a bwyd tlodi. |
| **Sut mae'r is-grŵp yn cyfrannu at Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015?** |
| Mae'r is-grŵp yn gweithredu nifer o'r ffyrdd o weithio sydd wedi'u datblygu fel rhan o egwyddor Datblygu Cynaliadwy'r Ddeddf ac mae'n unol â nifer o'r egwyddorion dylunio cynaliadwy yn 'Cymru Iachach', Strategaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol y Llywodraeth, drwy:<br>• ystyried tueddiadau **i'r dyfodol** ac ymateb i newidiadau mewn demograffi<br>• rhoi cynaliadwyedd ein system iechyd fel deilliant ar gyfer yr is-grŵp er mwyn cynllunio ar gyfer y dyfodol<br>• datblygu model **ataliol**<br>• **integreiddio** ein gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol i wneud gwir wahaniaeth i fywydau ein trigolion<br>• adnabod yr amrediad eang o ffactorau sy'n dylanwadu ar iechyd a llesiant (yn cynnwys addysg, tai, lleihau digartrefedd, twf economaidd, adfywio, hamdden a'r amgylchedd)<br>• gwireddu'r buddion **o weithio mewn partneriaeth** |

**4. Monitro**

**4.1** Mae'r tri is-grŵp a nodwyd uchod yn atebol i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus mewn perthynas â chyflawni unrhyw waith a gomisiynir. Mae'r is-grwpiau yn diweddaru'r Bwrdd ar gynnydd yn chwarterol, ac yn ystod cyfarfodydd y Bwrdd ceir her a thrafodaeth ar yr adroddiadau o gynnydd maent yn eu cyflwyno.

**4.2** Mae gan dîm cefnogi'r Bwrdd hefyd rôl i'w chwarae rhwng cyfarfodydd y Bwrdd i gefnogi a chynnal gwaith yr is-grwpiau. Yn ogystal mae adroddiad blynyddol yn cael ei gyhoeddi gan y Bwrdd sy'n crynhoi cynnydd wrth i'r Bwrdd weithio tuag at gyflawni ei amcanion strategol.

**5. Trefniadau Craffu**

**5.1** Mae gwaith y Bwrdd yn cael ei wirio'n gyson gan Bwyllgorau Craffu / sgriwtini Cyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn.

**5.2** Mae'r Ddeddf Llesiant a'r canllawiau cenedlaethol cysylltiedig yn nodi 3 rôl ar gyfer pwyllgorau sgriwtini Awdurdodau Lleol wrth ddarparu atebolrwydd democrataidd i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus:

- Adolygu trefniadau llywodraethu'r BGC
- Ymgynghorai statudol ar yr Asesiad Llesiant a'r Cynllun Llesiant
- Monitro cynnydd ymdrechion y BGC wrth weithredu'r Cynllun Llesiant

**6. Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb**

**6.1** Mae tîm cefnogi'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus eisoes wedi rhoi ystyriaeth, ac yn cydnabod yr angen am asesiadau effaith (e.e. Iaith a Chydraddoldeb), a bydd asesiadau yn cael eu datblygu a'u defnyddio pan fydd y Bwrdd yn ymgysylltu â'n cymunedau ar bwyntiau penodol ac ar gyfer diweddaru'r Asesiadau Llesiant.

| | |
|---|---|
| **Pwyllgor** | Pwyllgor Craffu Cymunedau |
| **Dyddiad** | 28 Medi, 2022 |
| **Teitl** | Biniau Halen |
| **Aelod Cabinet** | Y Cynghorydd Berwyn Parry Jones |
| **Awdur** | Steffan Jones, Pennaeth Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol |
| **Pwrpas** | Diweddariad y Gwasanaeth Cynnal Gaeaf - Biniau Halen |

## 1. Cyflwyniad

1.1 Ym mis Ionawr 2022, bu i ni gysylltu â Chynghorau Cymuned a Thref yn eu hysbysu y bydd yr Adran yn ail-sefydlu trefn biniau halen fel rhan o'r Gwasanaeth Cynnal Gaeaf. 'Rwyf yn falch o adrodd bod y drefn bellach yn ei le ac yn weithredol ers y gaeaf.

## 2. Cefndir a'r Sefyllfa Bresennol

2.1 Mae'r Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd gyda threfn cynnal gaeaf sydd yn weithredol o'r 1af o Hydref hyd at y dydd olaf o Ebrill. Mae hyn yn cynnwys trefn graeanu llwybrau blaenoriaeth cyntaf a llwybrau ail-flaenoriaeth ynghyd â darpariaeth biniau halen. Mae oll o'r ffyrdd dosbarth un a dau a rhai dosbarth 3 yn gynwysedig o fewn llwybrau graeanu blaenoriaeth cyntaf. Byddai gweddill ffyrdd dosbarth tri a di-ddosbarth wedi eu cynnwys o fewn y cylchdeithiau ail-flaenoriaeth.

2.2 Biniau Halen - mae'r biniau halen wedi eu lleoli mewn lleoliadau trafferthus/anodd sydd yn cynnwys llethrau, cyffyrdd a throadau sydyn ar ffyrdd ail-flaenoriaeth.

2.3 Gwelir isod dabl sy'n nodi'r niferodd biniau halen fesul ardal ynghyd â threfn cofnodi/ adnabod.

| Ardal | Nifer o Finiau | Cofnodi/Adnabod |
|---|---|---|
| Arfon | 344 | Cofrestr o'r lleoliadau ar ffurf taenlen. |
| Dwyfor | 119 | Cofrestr o'r lleoliadau ar ffurf taenlen. |
| Meirionnydd | 134 | Cofrestr o'r lleoliadau ar ffurf taenlen a pob dim wedi ei rifo. |
| **Cyfanswm:** | **597** | |

2.4 Mae'r biniau hyn nawr yn rhan o'r Gwasanaeth Cynnal Gaeaf ac yn cael eu llenwi fel yr angen. Mae'r Gwasanaeth Cynnal Priffyrdd yn ymrwymo cyllideb benodol ar gyfer y Gwasanaeth Cynnal Gaeaf sydd erbyn hyn yn cynnwys darpariaeth biniau halen ynghyd a'u llenwi.

2.5 Bydd cais am fin halen o'r newydd yn cael ei gytuno gyda'r Cyngor Cymuned neu Dref a bydd y Gwasanaeth yn edrych ar ail-leoli yn hytrach na ychwanegu bin newydd yn y lle cyntaf. Amlygir yn 3.1 yr hyn byddem yn ei ystyried cyn darparu bin o'r newydd.

2.6 Bydd biniau halen yn cael eu nodi o fewn ‘Map Gwynedd’ er mwyn rhannu manylion/lleoliadau pob bin.

2.7 Fel sydd wedi ei gofnodi yn ardal Meirionnydd, y bwriad yw y bydd pob bin halen gyda rhif penodol arno. Bydd hyn yn galluogi trefn syml a rhwydd i Gynghorau Cymuned/Tref adrodd ar fin sydd angen sylw gan ddewis yr ased hwnnw wrth gyflwyno cais/ymholiad drwy hunanwasanaeth.

**3. Trefniadau/Gweithdrefnau Newydd**

3.1 Trefniadau delio â chais newydd am fin - Os bydd Cyngor Cymuned neu Dref yn cysylltu gyda’r Gwasanaeth er mwyn derbyn bin o’r newydd, byddem yn cysidro’r pwyntiau isod cyn gallwn ei ddarparu:

- Ydi’r bin wedi ei leoli ar ffordd gyhoeddus?
- Ydi’r lleoliad ar lwybr graeanu cyfredol blaenoriaeth cyntaf neu ail-flaenoriaeth?
- A fuasai graeanwr yn gallu trin y ffordd os yw’r angen yn codi?
- Oes bin halen arall gyfagos? (Ydi’r bin hwnnw yn cael ei ddefnyddio?)
- Beth yw uchder y lleoliad? Tir uchel neu arfordirol?
- Ffordd serth neu wastad?
- Oes problemau dŵr yn rhedeg?

3.2 Pe bydd y cais am fin newydd yn cyrraedd y gofynion a nodir yn 3.1, bydd trafodaeth gyda’r swyddfa ardal/Cyngor Cymuned neu Dref.

**4. Camau Gweithredol cyn Tymor y Gaeaf**

4.1 Bydd y Gwasanaeth yn ail lenwi’r biniau yn dilyn archwiliadau cyn diwedd mis Medi a bydd yr Archwilwyr Ffordd yn eu archwilio dros gyfnod y Gaeaf gan drefnu i’w llenwi yn unol â’r angen.

4.2 Bydd y Gwasanaeth yn monitro y trefniadau dros gyfnod y Gaeaf er sicrhau ymateb unrhyw broblemau sydd yn codi. Mae hyn y bwysig gan i bob tymor fod yn wahanol e.e. roedd y Gaeaf olaf yn eithaf tyner.

| | |
|---|---|
| **ENW'R PWYLLGOR CRAFFU** | Pwyllgor Craffu Cymunedau |
| **DYDDIAD Y CYFARFOD** | 15 Medi 2022 |
| **TEITL** | **Diweddariad - Datblygiadau yn y maes Cludiant Cyhoeddus** |
| **AWDUR** | Dafydd Wyn Williams, Pennaeth Adran Amgylchedd |
| **AELOD CABINET** | Y Cynghorydd Dafydd Meurig |
| **PWRPAS** | Diweddaru'r Pwyllgor am y gwaith wrth law i'r Pwyllgor eu hystyried |

**1. CEFNDIR**

1.1 Mae sawl o fewn ein cymunedau yn ddibynnol ar gludiant cyhoeddus i deithio i'r gwaith, at addysg, i apwyntiadau ac wrth gwrs mae'r gwasanaeth yn bwysig iawn ar gyfer byw yn annibynnol. Fe gofiwch yn ôl yn Gorffennaf 2021 fe wnaeth yr Adran Amgylchedd gyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau yn amlinellu trefn o flaenoriaethu gwasanaethau ar sail gwerth cymdeithasol yn hytrach na cost fesul pen teithiwr [Atodiad 1].

1.2 Mae Gwynedd fel sawl Sir arall yng Nghymru yn wledig iawn, sydd wrth gwrs yn gwneud llwybrau gyda nifer gweddol isel o deithwyr yn annhebygol o fod yn fasnachol hyfyw. Mae oddeutu 60 o wasanaethau Cludiant Cyhoeddus yng Ngwynedd, ac o'r rhain mae oddeutu 87% angen eu sybsideiddio [yn rhannol neu yn llawn] gydag arian cyhoeddus. Mae Cyngor Gwynedd yn cyfrannu £2.3 miliwn y flwyddyn ar gyfer darparu gwasanaethau Cludiant Cyhoeddus i'n trigolion.

1.3 Mae'r adroddiad yma yn amlinellu be sydd wedi bod yn digwydd yn y maes Cludiant Cyhoeddus yn ystod y 2 flynedd diwethaf, ac yn amlinellu'r agweddau sy'n ein hwynebu. Pwrpas cyflwyno'r trosolwg yma i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau yw yn gyntaf i ddiweddaru'r Pwyllgor, ond hefyd rhoi cyfle i'r Pwyllgor ystyried os ydynt yn awyddus derbyn adroddiad mwy manwl ar agwedd o waith y Gwasanaeth ar gyfer ei Graffu.

1.4 Mae'r adroddiad yn gosod allan penawdau penodol sydd gyda'i gilydd yn cyflwyno darlun i Aelodau'r Pwyllgor o'r gwaith sydd wedi bod yn mynd ymlaen a be sydd ar waith ac ar y gweill.

**2. COFID 19 - GRANTIAU**

2.1 Ers Mawrth 2020 bu i ni dalu 75% o bris dyddiol i bob contractwr bws a thacsi ysgol yn ystod y cyfnod clo. Roedd hyn yn sicrhau fod y gweithredwyr dal mewn busnes pan oedd plant yn dychwelyd yn ôl i'r ysgol.

2.2 Bu i gludiant cyhoeddus barhau drwy'r cyfnod yma ond gyda'r mwyafrif ond yn rhedeg 75% o'i siwrnai, roedd hyn yn sicrhau fod gweithwyr allweddol yn parhau i gael mynediad i'w gwaith.

**SECTOR BYSIAU 2 (BES 2)**

2.3 Roedd Llywodraeth Cymru am gymryd camau i helpu gweithredwyr bysiau yng Nghymru i oroesi pandemig COVID-19, ac mae'r camau wedi sicrhau bod gweithredwyr yn gallu parhau i ddarparu gwasanaethau na ellid bod wedi'u darparu heb y cymorth ariannol hwn, ers mis Mawrth 2020. Mae'r cymorth hwn drwy BES2 wedi bod yn holl bwysig i alluogi'r gweithredwr i gadw cwsmeriaid a rhwydwaith o wasanaethau a allai fel arall fod wedi'u colli neu eu lleihau'n sylweddol. Y gobaith oedd y byddai'r gefnogaeth ariannol yn cefnogi'r rhwydwaith pan fyddai'r rheolau ar gadw pellter cymdeithasol (ac unrhyw ffactor eraill) yn cael eu llacio.

2.4 Cefnogwyd y diwydiant bysiau yn ystod y pandemig i gadw gwasanaethau hanfodol barhau, ac roedd y Cynllun brys ar gyfer y Sector Bysiau 2 (BES2) yn rhan allweddol o hyn. Roedd y cytundeb yma rhwng cwmnïau bysiau, Cyngor Gwynedd, Trafnidiaeth i Gymru a Llywodraeth Cymru. Derbyniwyd £37.2 miliwn yn ychwanegol ar draws Cymru i gefnogi'r diwydiant.

2.5 Roedd hyn yn sicrhau ein bod yn gallu rhoi bysiau ychwanegol oherwydd y gofyn i ymbellhau yn gymdeithasol. Trefnwyd bysiau ysgol pur i blant oedd yn arferol yn teithio ar fysiau cyhoeddus. Roedd gweithredwyr bysiau yn gallu gwneud cais yn fisol hefyd am golled incwm a gwahaniaeth mewn tocyn teithio mantais o gymharu â'r un cyfnod yn 2019.

2.6 Mae holl daliadau cofid i'r gweithredwyr wedi dod i ben ers 31 Gorffennaf 2022.

2.7 Mae cynllun newydd Sector Bysiau 3 (BES3) yn cychwyn ym mis Awst 2022, ond nid yw'r termau ac amodau wedi ein cyrraedd hyd yma.

**Effaith cofid ar wasanaethau**

2.8 Gwelwyd gostyngiad sylweddol yn y galw am deithio yn dilyn y cyngor i bawb aros gartref, yr angen i ymbellhau yn gymdeithasol, a'r ffaith fod nifer yn gweithio gartref. Ar y cyfan, mae'r niferoedd sy'n teithio ar wasanaethau bws cyhoeddus yng Ngwynedd i lawr 23%, o gymharu niferoedd Ebrill i Fehefin 2019 a 2022. Er hyn, mae cynnydd yn rhai gwasanaethau megis y twf o 18% yn niferoedd teithwyr rhwydwaith newydd Sherpa Eryri (o gymharu niferoedd Ebrill i Fehefin 2022 a 2019).

2.9 Gwelwn hefyd bod cynnydd yn nifer o deithwyr o gymharu eleni gyda'r un cyfnod y llynedd (cynnydd o 47%), felly mae'n galonogol gweld fod pobl yn cael yr hyder i ddychwelyd at gludiant cyhoeddus.

2.10 Mae prinder gyrwyr yn effeithio'r diwydiant yn enfawr, nifer o yrwyr wedi ymddeol neu adael i swydd hollol wahanol, ac ymddengys fod holl gwmnïau bysiau Gwynedd yn cael trafferth recriwtio

**3. CLUDIANT YSGOLION**

3.1 Rydym yn pwrcasu contractau ar ran yr Adran Addysg ar gyfer ysgolion a cholegau Gwynedd. Mae gennym 23 contract bws i ysgolion cynradd, 52 bws i ysgolion uwchradd, 9 bws coleg a 218 contract tacsis/bysiau mini i ysgolion cynradd, uwchradd ac anghenion dysgu ychwanegol. Mae modd i ddysgwyr hefyd deithio ar ein bysiau cyhoeddus ble mae'r cyngor yn cyfrannu at gynllun prynu seddi.

3.2 Rydym yn pwrcasu contractau consortiwm ôl-16 Gwynedd ac Ynys Môn. Mae hyn yn galluogi dysgwyr blwyddyn 12 a 13 deithio o un ysgol uwchradd i'r llall er mwyn derbyn eu gwersi. Mae gennym 190 o gontractau.

## 4. PRIS TANWYDD

4.1 Gyda phris tanwydd wedi codi yn sylweddol dros y misoedd diwethaf derbyniwyd nifer o geisiadau am arian ychwanegol gan weithredwyr. Yn arferol bob blwyddyn rydym yn rhoi chwyddiant ar gontractau cludiant cyhoeddus a bysiau ysgol, eleni roedd y chwyddiant yn 4.1% ac roedd hyn yn dderbyniol gan y gweithredwyr.

4.2 O ran tacsis ysgol cafwyd nifer o geisiadau am arian ychwanegol gyda nifer yn dweud bod nhw am derfynu eu contractau. Penderfynwyd fel ewyllys da i roi 20% yn ychwanegol ar eu contractau am fis Mehefin a Gorffennaf 2022. Byddwn yn adolygu'r sefyllfa mis Medi 2022.

4.3 Mae Siroedd eraill Cymru sydd wedi ail-dendro contractau yn ddiweddar wedi cael prisiau yn ôl sydd 3 gwaith yn uwch na'r pris blaenorol. Bu i ni ail dendro un contract bws cyhoeddus yn ddiweddar (Bethesda - Mynydd Llandygai - Bangor) ble gwelwyd 11% cynnydd yng nghost y contract (pris 2019 v pris 2022).

## 5. PAPUR GWYN UN RHWYDWAITH, UN AMSERLEN, UN TOCYN

5.1 Mae'r Papur Gwyn ar Fysiau, a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn gam allweddol tuag at fodel newydd ar gyfer gweithredu bysiau yng Nghymru, ac yn gyfle inni edrych ar yr hyn mae angen i wasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus Cymru ei ddarparu.

5.2 Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gyda llywodraeth leol, y diwydiant bysiau a theithwyr ar fodel masnach freinio arfaethedig sydd â'r nod, yn y pen draw, o ddarparu Un Rhwydwaith, Un Amserlen ac Un Tocyn.

5.3 Fel rhan o'r gwaith hwn, mae ymgynghoriad cyhoeddus 12 wythnos newydd gau, roedd hyn yn caniatáu i bobl ledled Cymru ddweud eu barn ar sut bydd y system newydd yn cael ei chynllunio.

## 6. Adolygiad Rhwydwaith

6.1 Mae'r Cyngor wedi bod yn gweithio yn agos gyda swyddogion Trafnidiaeth i Gymru dros y misoedd diwethaf i ail edrych ar rwydwaith bysiau Gwynedd. Mae'r rhwydwaith presennol yn bodoli ers blynyddoedd.

6.2 Pwrpas yr adolygiad ydi gwella'r ddarpariaeth cludiant drwy addasu'r amserlenni i gryfhau cysylltiadau rhwng bysiau a threnau gan greu posibiliadau teithio ehangach. Y weledigaeth ydi defnyddio'r adnoddau sydd gennym yn barod ond teilwra'r amserlenni i weithredu'n fwy cynaliadwy gyda'r gobaith o gynyddu posibiliadau teithio i ardaloedd gwledig sydd heb ddarpariaeth ddigonol ar hyn o bryd. Gall hyn fod yn defnyddio tacsi neu fws mini sy'n bwydo mewn i'r prif wasanaethau bws ar y rhwydwaith strategol.

6.3 Bydd cyfyngiadau i'r posibiliadau oherwydd y pwyslais ar siwrneiau addysg / cymudo sy'n hanfodol i'r defnyddwyr ac yn bwysig i sicrhau cynaliadwyedd ariannol i'r Cyngor.

6.4 Gobeithir treialu bws Fflecsi yn ardal Pwllheli flwyddyn nesaf. Mae fflecsi yn ffordd wahanol o deithio ar fws ac efallai yn swnio yn eithaf radical ar yr wyneb! Mae Fflecsi yn gweithio drwy eich codi a'ch gollwng mewn ardal wasanaeth (neu *zone*) ac nid yw'n gaeth i safleoedd bws. Rhaid archebu taith ymlaen llaw drwy'r ap neu mae'n bosibl codi'r ffôn. Yna, mae bws yn eich codi, gan newid ei lwybr fel y gall pob teithiwr gyrraedd lle mae angen iddynt fynd. Mae'r Fflecsi wedi bod yn llwyddiant mawr yn Ninbych, Dyffryn Conwy ac fel Fflecsi-Bwcabus yng Ngogledd Sir Gaerfyrddin a De Ceredigion.

6.5 Mae COFID-19 wedi effeithio'n fawr ar drafnidiaeth gyhoeddus ac ar sut mae pobl yn teithio, ac mae llai o bobl yn teithio. Gall fflecsi helpu'r teithwyr hyn mewn ffordd ddiogel a chynaliadwy, gan ddarparu gwasanaethau pryd bynnag a lle bynnag y bydd eu hangen fwyaf. Mae dewis pryd maent am deithio hefyd yn golygu y gall gweithwyr allweddol gyrraedd y gwaith yn brydlon ac y gall teithwyr wneud teithiau hanfodol heb fawr ddim oedi.

6.6. Gobeithir yn y dyfodol cydweithio gyda Phartneriaeth Ogwen, Yr Orsaf, Penygroes ac O Ddrws i Ddrws i weld os allant hwy gynnig ffyrdd hygyrch o gludo teithwyr.

6.7 Mae O Ddrws i Ddrws yn gweithredu bws fflecsi o amgylch Pen Llyn sydd wedi disodli'r gwasanaethau bysiau arfordirol tymhorol ar Ben Llŷn. Mae Fflecsi Llŷn yn gweithredu ddydd Gwener, dydd Sadwrn, dydd Sul a dydd Llun ac mae'n cynnig ffordd fwy hyblyg o fynd o gwmpas trwy eich codi a'ch gollwng yn yr ardal ddiffiniedig, gan eich galluogi i gyrraedd traethau, meysydd gwersylla, mannau twristaidd a gwneud siwrneiau lleol eraill.

## 7. TRAWSCYMRU

7.1 Mae gwasanaethau bws TrawsCymru yn rhan bwysig o'r rhwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus integredig yng Nghymru – fel rhan o'r teithiau pellter hir ac fel gwasanaethau bws lleol.

7.2 Caiff y bysiau eu hariannu gan Lywodraeth Cymru ac maent yn darparu cysylltiadau hanfodol o ran trafnidiaeth gyhoeddus ar gyfer llawer o gymunedau ledled Cymru. Maent yn cysylltu â gwasanaethau rheilffyrdd ac yn cynnig dull hygyrch, fforddiadwy a charedig i'r amgylchedd o deithio i ymwelwyr, sy'n eu galluogi i fwynhau golygfeydd hardd Cymru.

7.3 Mae datblygiadau cyffrous ar y gweill o safbwynt gwasanaethau TrawsCymru oherwydd bydd cerbydau trydan newydd, ap newydd i deithwyr a gwefan newydd yn cael eu cyflwyno yn ystod y misoedd sydd i ddod. Byddwn yn rhannu'r wybodaeth ddiweddaraf â theithwyr ar ein bysiau a thrwy ein sianelau ar gyfryngau cymdeithasol.

7.4 Mae staff yr Uned Cludiant Integredig wedi bod yn gweithio yn agos gyda swyddogion Trafnidiaeth i Gymru dros y misoedd diwethaf i ail edrych ar rwydwaith bysiau Gwynedd. Mae cynlluniau i gyflwyno gwasanaeth newydd y T22 yn hwyrach eleni, fydd yn gwasanaethu Blaenau Ffestiniog - Caernarfon via Porthmadog gyda bysiau trydan.

7.5 Mae'r amserlenni arfaethedig ar gyfer y gwasanaeth T22 TrawsCymru newydd wedi eu dylunio i ddarparu gwasanaeth cydlynol gyda'r gwasanaeth T2 TrawsCymru (Aberystwyth – Bangor via Dolgellau) ac i ddarparu cysylltiadau cadarn ym Mhorthmadog ar gyfer cwsmeriaid sy'n dymuno cysylltu rhwng teithiau gwasanaeth T2 i ac o Fangor a Caernarfon a theithiau gwasanaeth T22 i ac o Flaenau Ffestiniog.

7.6 Rydym hefyd yn y broses o gynllunio ar gyfer ail dendro gwasanaethau'r T2 (Bangor - Aberystwyth) a'r T3 (Abermaw - Wrecsam) gan fod y contractau cyfredol yn dod i ben ddiwedd Ionawr 2023. Mae amserlenni arfaethedig mewn lle ar gyfer cychwyn mis Chwefror 2023. Bydd amserlen dros dro ar gyfer y T22 gydag addasiad i gyd-fynd a'r amserlenni T2/T3 newydd flwyddyn nesaf.

## 8. SHERPA'R WYDDFA AR EI NEWYDD WEDD

8.1 Dyma grynodeb o'r gwelliannau mawr a gyflwynwyd ar rwydwaith newydd Sherpa'r Wyddfa, a ddaeth i rym ar ddydd Sadwrn 9 Ebrill 2022.

8.2 Mae pobl leol yn elwa o lansiad rhwydwaith newydd Sherpa'r Wyddfa sydd yn darparu mwy o gyfleoedd teithio ar draws ardal eang, gyda chyfleoedd i deithio ar draws Eryri a'r cyffiniau a chysylltedd rhagorol rhwng gwahanol lwybrau mewn lleoliadau allweddol.

- Llwybr S1 (Betws-y-coed - Caernarfon via Llanberis)
  Gwasanaeth uniongyrchol rhwng Caernarfon a Pen-y-Pass/Betws-y-coed ac nid oes angen newid bws yn Llanberis - dyma gyfuniad o'r hen 88 a S2. Mae'r bysus yn rhedeg pob awr yn ddyddiol, gyda chynnydd sylweddol yn y nifer o siwrneiau rhwng Caernarfon a Llanberis - mi roedd 'na 10 bws yn rhedeg Llun i Sadwrn a 4 ar y Sul lle rydym bellach hefo 13 siwrne ar Lun i Sadwrn a 12 ar ddydd Sul. Hefyd, gwelwn gysylltiadau gwell yn Pen-y-Pass gyda'r S4 i/o Feddgelert/Porthmadog.

- Llwybr S2 (Bangor – Pen-y-Pass via Llanberis)
  Gwasanaeth uniongyrchol rhwng Bangor a Pen-y-Pass ac nid oes angen newid bws yn Llanberis - dyma hen lwybr yr 85/86. Mae'r bysus yn rhedeg pob awr yn ddyddiol, gyda chynnydd sylweddol yn y nifer o siwrneiau rhwng Bangor a Llanberis - mi roedd 'na 9 bws i Fangor a 7 i Lanberis yn rhedeg Llun i Wener, 7 i Fangor a 6 i Lanberis ar ddydd Sadwrn a 4 pob ffordd ar ddydd Sul. Mae'r rhwydwaith newydd yn darparu 13 bws i Fangor a 12 i Lanberis Llun i Wener, 12 pob ffordd ar ddydd Sadwrn gyda 11 i Fangor a 12 i Lanberis ar ddydd Sul.

- Llwybr S3 (Beddgelert – Dinorwig via Caernarfon)
  Gwasanaeth newydd sy'n gymysgedd o hen lwybr yr 83 a'r S4. Mae'n darparu gwasanaeth pob awr, Llun i Sadwrn, rhwng Beddgelert a Llanrug heibio Waunfawr, Caeathro, Caernarfon a Beddgelert. Mae cysylltiadau gwell ym Meddgelert gyda llwybr yr S4 i/o Pen-y-Pass ac i/o Borthmadog. Mae cynnydd sylweddol yn y ddarpariaeth i Fethel, gyda'r nifer o fysus Llun i Wener wedi codi o 7 i'r dwyrain /9 i'r gorllewin i 13 i'r dwyrain /14 i'r gorllewin. Bysus ar y Sadwrn wedi codi o 7 i'r gogledd /6 i'r de i 12 i'r dwyrain /13 i'r gorllewin ac ar y Sul wedi codi o 3 i 5 siwrne. Hefyd gwelwn gynnydd sylweddol yn y nifer o fysus yn cysylltu Beddgelert a Caernarfon heibio Waunfawr a Caeathro - mae'r nifer o fysus wedi dyblu o 6 i 12 Llun i Sadwrn ac o 3 i 6 ar y Sul. Yn olaf, mae'r nifer o fysus yn cysylltu Caernarfon a Deiniolen wedi cynyddu hefyd - ar Lun i Wener mae'r nifer wedi codi o 6 i'r dwyrain a 8 i'r gorllewin i 9 i'r dwyrain a 10 i'r gorllewin; ar y Sadwrn nifer o fysus wedi codi o 6 i'r dwyrain a 8 i'r gorllewin wedi cynyddu i 9 bob ffordd; ac ar y Sul nifer o fysus wedi codi o 3 i 5 siwrne bob ffordd.

- Llwybr S4 (Pen-y-Pass i Borthmadog via Beddgelert)
  Cysylltiadau gwych gyda'r S3 ym Meddgelert ar gyfer teithio i/o Gaernarfon a Pen-y-Pass a hefyd gyda bysus yr S1 i/o Betws-y-Coed a Llanberis. Cynnydd yn y nifer o fysus yn cysylltu Beddgelert a Porthmadog fel y ganlyn - ar Lun i Sadwrn mae'r nifer o fysus wedi codi o 6 i 7 siwrne a 2 wedi codi i 3 ar y Sul. Cynnydd sylweddol wedi bod yn y nifer o fysus sy'n cysylltu Beddgelert a Caernarfon ar Lun i Sadwrn, gyda'r nifer o fysus wedi codi o 3 i 5.

- Llwybr S5 (Llanberis – Pen-y-Pass)
  Bws yn gweithredu pob hanner awr, yn ddyddiol, rhwng Llanberis a Pen-y-Pass heibio Nant Peris - gyda'r bws cyntaf yn gadael Llanberis am 0710 y bore, a'r bws olaf lawr o Pen-y-Pass yn gadael am 1930. Mae bysus ychwanegol yn gweithredu rhwng Nant Peris a Pen-y-Pass ar Sadwrn, Suliau a gwyliau cyhoeddus a hefyd Llun i Wener yn ystod gwyliau'r Ysgol sydd yn rhoi bws pob chwarter awr ar y llwybr hwn. Gwasanaeth gwell ar gyfer ymwelwyr a lleihau'r defnydd o'r car personol er mwyn ceisio ymdopi a phroblemau Parcio gall effeithio ar gymunedau yn yr ardal.

- Niferoedd teithio
  Dyma gymhariaeth o'r niferoedd teithio ar yr 'hen rwydwaith' o gymharu gyda'r rhwydwaith Sherpa newydd. Roedd yr 'hen rwydwaith' yn cynnwys yr 83, 85, 86, 88, S1, S2, S4 a S97.

| Nifer o deithwyr | 2019 | 2021 | 2022 |
|---|---|---|---|
| Ebrill | 30,364 | 14,581 | 37,431 |
| Mai | 36,681 | 24,699 | 39,923 |
| Mehefin | 33,253 | 36,929 | 40,880 |

| 2019 v 2022 | |
|---|---|
| **Cynnydd mewn teithwyr** | **Cynnydd (%)** |
| 7,067 | 23% |
| 3,242 | 9% |
| 7,627 | 23% |
| **2021 v 2022** | |
| **Cynnydd mewn teithwyr** | **Cynnydd (%)** |
| 22,850 | 157% |
| 15,224 | 62% |
| 3,951 | 11% |

8.3 Ar y cyfan mae'r nifer teithio i fyny 39% o'i gymharu â ffigyrau 2021 sy'n profi bod pobl yn fwy hyderus i ddefnyddio cludiant cyhoeddus yn dilyn y pandemig. Mae'r nifer o deithwyr fyny 5% ar 2019 sy'n profi bod gwelliant i'r ddarpariaeth o gymharu â'r rhwydwaith hanesyddol a bod y gwasanaeth yn denu mwy o bobl ar y bysus. Mae'r rhwydwaith newydd gael llwyddiant mawr o fewn cyfnod byr.

8.4 Mae refeniw ar y rhwydwaith i fyny 41% eleni o gymharu â'r un cyfnod yn 2019 ac mae fyny 57% eleni o gymharu â'r un cyfnod yn 2021.

**9. CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG**

9.1 Daeth swyddogaethau'r Cyd-bwyllgor Corfforedig (CBC) ar gyfer Gogledd Cymru i rym ar y 30 o Fehefin 2022. Mae swyddogaethau'r CBC yn cynnwys gofyn statudol i gynhyrchu Cynllun Trafnidiaeth Rhanbarthol (CTRh) newydd ar gyfer y rhanbarth erbyn mis Gorffennaf 2023, sydd yn amserlen hynod o heriol. Bydd wedyn gofyn i'r CBC adolygu'r cynllun yn ffurfiol bob tair blynedd, a chynhyrchu cynllun newydd bob 5 mlynedd.

9.2 Bydd cyflawni'r prosiectau a'r camau gweithredu a fydd wedi'u cynnwys yn y CTRh yn parhau i fod yn gyfrifoldeb i bob awdurdod lleol lle mae'r prosiectau/camau gweithredu hynny wedi'u lleoli.

9.3 Nid yw'n gwbl glir ar hyn o bryd beth yw goblygiadau hyn i wasanaethau cludiant cyhoeddus yn sirol, ond bydd y Cyngor yn ceisio dylanwadu ar gynnwys y CTRh, er mwyn sicrhau ei fod yn cwrdd ag anghenion Gwynedd.

**10. CLOI**

10.1 Cyflwynir yr adroddiad yma i lunio trosolwg i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau yn gyntaf i ddiweddaru'r Pwyllgor, ond hefyd rhoi cyfle i'r Pwyllgor ystyried os ydynt yn awyddus derbyn adroddiad mwy manwl ar agwedd o waith y Gwasanaeth ar gyfer ei Graffu. Mae'r Adran Amgylchedd yn hapus i ymateb i unrhyw gwestiwn i helpu'r Pwyllgor benderfynu ar y trywydd maent yn awyddus i ddilyn.

---

ATODIAD 1: Adroddiad Pwyllgor Craffu Cymunedau 13 Gorffennaf 2022

| | |
|---|---|
| **ENW'R PWYLLGOR CRAFFU** | Pwyllgor Craffu Cymunedau |
| **DYDDIAD Y CYFARFOD** | 13 Gorffennaf 2021 |
| **TEITL** | Diweddariad - Adolygiad Strategol o'r Gwasanaeth Cludiant Cyhoeddus |
| **AWDUR** | Dafydd Wyn Williams, Pennaeth Adran Amgylchedd |
| **AELOD CABINET** | Y Cynghorydd Gareth W Griffith |
| **PWRPAS** | Diweddaru'r Pwyllgor am y cynnydd hyd yma |

## 1. CEFNDIR

1.1 Cyflwynir yr adroddiad hwn i'r Pwyllgor er rhoi diweddariad ar yr Adolygiad Strategol Cludiant.

1.2 Mae'r Adran Amgylchedd wedi cyflwyno adroddiad i'r Tîm Arweinyddiaeth ar yr 9fed Hydref 2018 yn amlinellu'r trafferthion gyda chwmnïau bysiau sydd wedi effeithio teithwyr yng Ngwynedd ers 2014. Yr oedd yr adroddiad hwn yn adnabod risgiau, a'r prif risg o ystyried yr hanes oedd orddibyniaeth ar gwmnïau bysiau. Prif effaith y risg hwn ymysg eraill oedd cynyddu costau cludiant cyhoeddus yng Ngwynedd gan leihau nifer o wasanaethau ar gael i'r defnyddwyr.

1.3 Er mwyn lliniaru'r risgiau yma datganwyd bwriad yr Adran i gynnal adolygiad cynhwysfawr o ddarpariaeth Cludiant Cyhoeddus ac i ymgynghori gyda chymunedau i wneud y canlynol:

- Adnabod yr angen
- Asesu'r gwerth cymdeithasol
- Blaenoriaethu gwasanaethau
- Cynnig cludiant drwy arloesi a chael mwy am ein harian prin

1.4 Cyflwynwyd adroddiad pellach i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau ar 4ydd Ebrill 2019 yn cynnig diweddariad ac yn benodol amlinellu nod yr adolygiad Cludiant Cyhoeddus a'r dull o weithredu. Esboniwyd bod yr adolygiad am ystyried y rhwydwaith cludiant cyhoeddus presennol ac asesu os yw'n addas at y diben gyda'r bwriad o sefydlu rhwydwaith diogel, dibynadwy a chost effeithiol i'r dyfodol.

1.5 Diweddarwyd y Tîm Arweinyddiaeth ar 24 Fedi 2019 a'r Pwyllgor Craffu ar 26 Fedi 2019 [Atodiad 1]ar gynnydd yr Adolygiad Strategol o'r Gwasanaeth Cludiant Cyhoeddus.

1.6 I atgoffa'r Pwyllgor Craffu Cymunedau, bwriedir cyflawni'r adolygiad drwy ymgymryd â'r 7 cam canlynol:

1. Canfod beth yw'r angen gan y cyhoedd; nid yn unig beth yw'r galw gan y rhai sy'n defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus ar hyn o bryd ond hefyd beth fyddai'n annog aelodau eraill o'r cyhoedd i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus. Gwneir hyn drwy ymgysylltu ac ymgynghori.
2. Wedi sefydlu'r angen, bydd y rhwydwaith presennol yn cael ei archwilio i sicrhau y gall ddiwallu anghenion y cyhoedd sy'n teithio. Byddai hyn yn cynnwys gwneud unrhyw newidiadau angenrheidiol i'r rhwydwaith.
3. Wedi sefydlu'r rhwydwaith, bydd angen ystyried pa fath o ddarpariaeth fydd y mwyaf diogel, mwyaf dibynadwy a chost effeithiol. Dyma ble fydd angen i ni dynnu ar brofiad awdurdodau eraill ac arbenigwyr i werthuso opsiynau.
4. Ymgynghori â chymunedau i rannu canlyniad yr adolygiad a'r amserlen ar gyfer sefydlu'r rhwydwaith newydd cyn cychwyn ar y broses dendro.
5. Cychwyn y broses dendro.
6. Os yw'r arian yn annigonol i ddiwallu'r angen, yna bydd angen blaenoriaethu'r llwybrau bws yn seiliedig ar ddadansoddiad Adenillion Cymdeithasol ar Fuddsoddiadau (Social Return on Investment.
7. Cychwyn y gwasanaeth newydd.

1.7 Mae'r Adran yn awyddus i dreialu ffyrdd amgen o ddiwallu anghenion trafnidiaeth drwy e.e. defnyddio dulliau trafnidiaeth gymunedol, gwasanaethau ar-alw, bysiau mini, tacsis ayyb.

1.8 Amlinellwyd amserlen gweithredu [Atodiad 2] ac y mae nawr yn amserol i adrodd ar y cynnydd hyd yn hyn i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau.

1.9 Felly prif bwrpas yr adroddiad yma yw i'ch diweddaru ar gynnydd ynghyd a'r camau nesaf y bydd yr Adran yn gweithredu arnynt

## 2. DIWEDDARIAD

### Gwaith holi

2.1 I sicrhau bod yr Adran yn deall pa wasanaethau mae ein trigolion eu hangen a hefyd i ddeall pwrpas siwrneiau unigolion casglwyd gwybodaeth angenrheidiol drwy ddefnyddio holiaduron.

2.2 Casglwyd holiaduron papur, a rhain yn bennaf o ddigwyddiadau cymunedol wedi eu trefnu mewn lleoliadau ar draws y Sir flaen llaw, neu swyddogion yn eistedd ar fws neu safle bws ac yn cwblhau'r holiaduron gyda defnyddwyr. Casglwyd nifer o holiaduron ar lein, ac yr oedd llwyddiant o gael ymateb mor uchel i lawr i nifer o aelodau a swyddogion farchnata'r angen i ymateb.

2.3 Mae'r gwaith dadansoddi'r holiaduron bellach wedi ei gwblhau, ac mae'r wybodaeth sydd wedi ei gasglu wedi bwydo 2 brif ffrwd gwaith sef:

- Canfod 'gwerth cymdeithasol' y gwasanaethau (wedi eu sybsideiddio) yr ydym yn eu paratoi
- Adolygu ein 'rhwydwaith cludiant cyhoeddus' i sicrhau ein bod yn cwrdd â'r angen yn y modd fwyaf effeithiol

**3. GWERTH CYMDEITHASOL GWASANAETHAU YR YDYM YN EI BARATOI**

3.1 Dylid nodi nad yw gwasanaethau masnachol na gwasanaethau 'Sherpa'r Wyddfa' wedi eu cynnwys fel rhan o'r gwaith 'gwerth cymdeithasol'. Mae adroddiad ar wahân wedi ei chwblhau i ystyried anghenion Pario a Thrafnidiaeth Gyhoeddus yng Ngogledd y Eryri drwy 'Partneriaeth yr Wyddfa'.

3.2 Mae adroddiad cynhwysfawr wedi ei gomisiynu gennym ac wedi ei baratoi gan Brifysgol Bangor [Atodiad 3] sydd yn esbonio mewn manylder y cefndir a'r fethodoleg i gyrraedd at y canlyniadau. Mae gwerth cymdeithasol wedi ei gyfrifo ar gyfer y 39 llwybr bws sydd wedi ei sybsideiddio. Wrth ystyried y gwerth cymdeithasol ynghyd a chost o baratoi gwasanaeth ar lwybr penodol mae 'enillion cymdeithasol ar fuddsoddiad' yn gallu cael ei ganfod (Social Return on Investment [SROI]). Mae methodoleg SROI wedi ei argymell gan y Trysorlys fel ffurf o asesu, ac wrth gwrs mae ystyried gwerth cymdeithasol yn rhan bwysig dros ben wrth i ni ystyried Deddf Cenedlaethau i'r Dyfodol (Cymru) 2015.

3.3 Wrth ystyried y cymhared SROI mae cryn dipyn o wahaniaeth rhwng gwahanol lwybrau. Ar un pegwn mae 9 llwybr yn amlinellu bod gwerth cymdeithasol dros £10 am bob £1 sy'n cael ei fuddsoddi ac ar y pegwn arall mae 4 llwybr yn amlinellu bod gwerth cymdeithasol o llai na £1 am bob £1 sy'n cael ei fuddsoddi. Mae'r tabl perthnasol wedi ei gynnwys yn nhabl 12.2 o'r adroddiad yn Atodiad 3 ac wedi ei gynnwys isod yn Nhabl 1.

**Tabl 1: Methodoleg Gwerth Cymdeithasol i gymharu llwybrau bysiau (fel Tabl 12.2 adroddiad Atodiad 2)**

| Cymarebau gwerth cymdeithasol yn fwy na £10 : 1 | | Cymarebau gwerth cymdeithasol rhwng £10 : 1 a £6 : 1 | | Cymarebau gwerth cymdeithasol rhwng £6 : 1 a £3 : 1 | | Cymarebau gwerth cymdeithasol llai na £3 : 1 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1) Llwybr 38 | £59.96 | 10) Llwybr 1F | £9.93 | 19) Llwybr 83 | £5.87 | 29) Llwybr 29 | £2.97 |
| 2) Llwybr 88 | £36.36 | 11) Llwybr 8 | £9.79 | 20) Llwybr 37 | £5.30 | 30) Llwybr 27 | £2.75 |
| 3) Llwybr 3B | £22.89 | 12) Llwybr 67S | £9.02 | 21) Llwybr 76 | £4.78 | 31) Llwybr 1S | £2.34 |
| 4) Llwybr 30 | £16.38 | 13) Llwybr 28 | £8.53 | 22) Llwybr 17 | £3.98 | 32) Llwybr 1NS | £2.25 |
| 5) Llwybr 12E | £14.31 | 14) Llwybr 85 | £8.16 | 23) Llwybr 1E | £3.91 | 33) Llwybr 23 | £2.20 |
| 6) Llwybr 93 | £13.63 | 15) Llwybr 39 | £7.96 | 24) Llwybr 18 | £3.64 | 34) Llwybr 88S | £2.03 |
| 7) Llwybr 5E | £12.44 | 16) Llwybr 35 | £6.77 | 25) Llwybr 3 | £3.44 | 35) Llwybr 67E | £1.31 |
| 8) Llwybr 1N | £11.38 | 17) Llwybr 92 | £6.21 | 26) Llwybr 3S | £3.27 | 36) Llwybr 8S/18S | £0.76 |
| 9) Llwybr 78 | £10.69 | 18) Llwybr 1A | £6.15 | 27) Llwybr 91 | £3.11 | 37) Llwybr 14 | £0.72 |
| | | | | 28) Llwybr 33 | £3.08 | 38) Llwybr 2S | £0.44 |
| | | | | | | 39) Llwybr 8AB | £0.31 |

3.4 Yn gryno iawn mae'r gwaith yn adnabod bod teithwyr o bob oedran yn cael budd o wasanaethau bws sydd wedi ei sybsideiddio. Mae'r adroddiad yn tynnu ein sylw at ein poblogaeth sy'n heneiddio ac yn ddibynnol ar Gludiant Cyhoeddus ar gyfer ei annibyniaeth. Mae'r adroddiad hefyd yn amlygu bod oddeutu 1 ym mhob 5 o gartrefi heb gerbyd yng Ngwynedd. Mae'r adroddiad yn dod i'r canlyniad bod gwasanaethau bws sydd wedi eu sybsideiddio yn cynnig gwerth cymdeithasol positif drwy alluogi pobl i deithio i'w gwaith, addysg, siopau, apwyntiadau meddygol, cyfleoedd i wirfoddoli ac i gymdeithasu a gofalu am eraill.

**4. ADOLYGU'R RHWYDWAITH CLUDIANT CYHOEDDUS**

4.1 Mae'r rhwydwaith Cludiant Cyhoeddus presennol wedi datblygu'r raddol dros flynyddoedd a does dim adolygiad cynhwysfawr wedi ei gynnal i sicrhau ein bod yn cyfarch yr angen yn y modd fwyaf effeithiol.

4.2 Gyda'r cyfoeth o wybodaeth sydd wedi ei gasglu drwy'r holiaduron ynghyd a chanlyniadau'r adroddiad gwerth cymdeithasol sydd wedi ei baratoi gan Brifysgol Bangor mae cyfle arbennig i fod yn edrych yn fanwl ar y rhwydwaith presennol a sicrhau ei fod yn addas i bwrpas ac yn cwrdd â'r gofyn.

4.3 Mae'r Adran Amgylchedd wedi derbyn cefnogaeth arbenigol gan 'Trafnidiaeth i Gymru (Transport for Wales [TfW]) i fod yn ystyried y rhwydwaith. Mae gwaith trylwyr iawn wedi ei wneud ganddynt sy'n adnabod rhai gwasanaethau sy'n cael eu dyblygu gan y gwasanaethau 'Traws Cymru' sydd yn wasanaethau sydd wedi eu sybsideiddio gan Lywodraeth Cymru. Mae hyn wrth gwrs yn codi'r cwestiwn a yw hi'n bosib i un gwasanaeth gyfarch anghenion lleol a 'Traws Cymru'? Mae'r cwestiwn yma wedi ei ystyried yn ddwys iawn, ac mae posib ond fe fyddai angen i'r Gwasanaethau Traws Cymru (yn benodol y llwybrau T2 a T3) fod yn rhedeg pob awr yn hytrach na phob 2 awr.

4.4 Mae Llywodraeth Cymru erbyn hyn wedi comisiynu gwaith i ystyried rhwydweithiau bysiau ledled Cymru gyda'r golwg o ganfod cysondeb a llif gwell drwy Siroedd i gludo ein trigolion yn y modd fwyaf effeithiol. Mae swyddogion o'r Adran yn gweithio'n agos iawn gyda 'Trafnidiaeth i Gymru' a chwmni ARUP i'r perwyl hyn ac yn awyddus iawn sicrhau bod gwasanaethau pwysig cefn gwlad yn cael eu gwarchod.

4.5 Yn ogystal i hyn mae'r Adran wedi cychwyn trafodaethau gyda swyddogion Llywodraeth Cymru i ddeall a yw'n bosib cynyddu amlder y gwasanaethau 'Traws Cymru'. Ar hyn o bryd mae costau sylweddol yn ymddangos yn rhwystr. Mae opsiynau ehangach yn cael eu hystyried gan gynnwys cyd-ariannu i geisio sefydlu rhwydwaith cadarn sy'n cwrdd ag anghenion y sawl sy'n teithio'n lleol ynghyd a'r sawl sy'n awyddus teithio pellter. Mae'n galonogol bod Gwynedd wedi derbyn dros £3.7 miliwn ar gyfer paratoi is- adeiledd a phwrcasu bysiau trydan i gyfarch gwasanaethau bysiau Traws Cymru T22 [rhwng Blaenau Ffestiniog a Chaernarfon gan fynd heibio Cricieth a Rhoslan]. Fe fydd y gwasanaeth ychwanegol yn rhoi gwell gwasanaeth i gymunedau Gwynedd rhwng Blaenau Ffestiniog a Chaernarfon

4.6 Ar yr un pryd mae'r Adran wedi bod yn ystyried pecynnau tendr ar gyfer gwasanaethau wedi eu sybsideiddio ac eto mae cyswllt gyda TfW o ran sicrhau ein bod yn arloesi i sicrhau gwasanaethau sy'n cynnig gwerth am arian tra'r cwrdd â'r angen. Bwriad yr Adran oedd ail dendro Ardal Arfon o'r Sir yn gyntaf, gyda'r gwasanaethau newydd yn cychwyn yn ystod mis Medi 2021. Yn ystod 2021 yr oedd bwriad gan yr Adran yn ail dendro gwasanaethau yn Nwyfor gydag ail dendro Meirionnydd yn 2022 ond mae pandemig COVID wedi gorfodi'r Adran oedi ar y gwaith hwn.

4.7 Yn gyffredinol mae defnydd y cyhoedd o wasanaethau Cludiant Cyhoeddus yn sylweddol is, ac o'r adborth yr ydym yn ei dderbyn y rheswm tu cefn i hyn yw hyder i fod yn cymysgu gydag eraill ar y daith yng nghyd-destun y pandemig COVID. Mae cyfyngiadau ar y niferoedd all deithio ar fws yn ogystal ag angen i gadw ffenestri yn agored a gwisgo gorchudd wyneb. Mae'r Adran yn cydweithio gyda darparwyr Cludiant Cyhoeddus yn ogystal â chyrff eraill i geisio ail-sefydlu hyder teithwyr a galluogi'r rhai mwyaf bregus yn ein cymunedau gael y rhyddid i fyw yn annibynnol unwaith eto.

## 5. AMSERLEN BERTHNASOL

5.1 Bwriad yr Adran, yn unol â'r amserlen oedd symud ymlaen i'r broses tendro er gosod rhan Arfon o'r rhwydwaith newydd yn ei le erbyn Medi 2020 gyda'r ardaloedd eraill i ddilyn. Mae'r cyfnod heriol sydd wedi ein taro gyda COVID 19 wedi golygu ail feddwl ar hyn. Mae'r Adran o'r farn y byddai prisiau ddim yn gystadleuol gan fod hyder cwmnïau yn isel. Mae penderfyniad felly i oedi ar ddechrau'r ail dendro hyd nes y Gwanwyn 2021.

5.2 Mae'r Adran y gweithio gyda Thrafnidiaeth i Gymru a chwmni ARUP i adolygu rhwydwaith bysiau yng Ngwynedd ac mae hyn y cyd-destun cenedlaethol adolygiad rhwydwaith bysiau cenedlaethol.

5.3 Mae'r adran yn gweithio i osod isadeiledd pwrpasol a phwrcasu bysiau trydan i redeg gwasanaeth T22 [Blaenau Ffestiniog i Gaernarfon] gyda'r golwg o ddechrau'r gwasanaethau hyn yn ystod y Gwanwyn 2022

5.4 Fe fydd yr Adran yn monitro defnydd Gwasanaethau Cludiant Cyhoeddus a chydweithio gyda'r darparwyr a chyrff eraill i hyrwyddo ac ail sefydlu hyder teithwyr sydd wedi ei danseilio oherwydd y pandemig.

---

**Atodiadau**

Atodiad 1: Adroddiad i'r Pwyllgor Craffu 26.09.19

Atodiad 2: Amserlen Gweithredu

Atodiad 3: Adroddiad Prifysgol Bangor

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU |
| **DYDDIAD** | 28 Medi 2022 |
| **TEITL** | Blaenraglen Pwyllgor Craffu Cymunedau 2022/23 |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD** | Cyflwyno rhaglen waith ddrafft y Pwyllgor ar gyfer 2022/23 i'w mabwysiadu. |
| **AWDUR** | Bethan Adams, Ymgynghorydd Craffu |

1. Yng ngweithdy blynyddol y Pwyllgor ar 6 Gorffennaf 2022 ystyriwyd eitemau posib i'w craffu yn ystod 2022/23. Blaenoriaethwyd eitemau gan gadw mewn cof pwrpas craffu yng Ngwynedd, sef:

**CYFRANNU AT YRRU GWELLIANT MEWN GWASANAETHAU I BOBL GWYNEDD**

Gwneir hyn yn adeiladol trwy:

- Ymchwilio i bryderon am ansawdd ein gwasanaethau
- Weithredu fel Ffrind Critigol yn sicrhau fod sylw priodol yn cael ei roi i lais y dinesydd
- Adnabod ymarfer da a gwendidau
- Dal y Cabinet a'i aelodau i gyfrif
- Adolygu neu graffu penderfyniadau neu weithredoedd nad ydynt yn gyfrifoldeb y Cabinet

2. Bu aelodau yn trafod mewn grwpiau llai o ran eu blaenoriaethau hwy o'r rhestr o eitemau posib a ddarparwyd ymlaen llaw gyda chyfle i aelodau awgrymu eitemau posib eraill. Gofynnwyd i aelodau wrth adnabod eu blaenoriaethau ystyried:

- *A yw'r mater yn effeithio ar gyfran helaeth o'r boblogaeth?*
- *A yw craffu yn gallu gwneud gwahaniaeth / cael dylanwad? (Pobl / gwasanaeth / perfformiad)*
- *A yw'r mater yn amserol i'w graffu?*
- *Ydi'r mater yn flaenoriaeth i'r Cyngor?*
- *A ydym yn glir beth ydym yn ceisio ei wella?*

3. Yn dilyn adrodd yn ôl o'r grwpiau, aethpwyd ati i flaenoriaethu eitemau i'w craffu gan wahodd yr Aelodau Cabinet a Phenaethiaid perthnasol i ymuno er mwyn nodi unrhyw beth ychwanegol oedd angen ei ystyried o ran yr eitemau a

flaenoriaethwyd gan aelodau'r Pwyllgor ynghyd â rhoi sylwadau o ran amseru'r craffu.

4. Ynghlwm fel atodiad i'r adroddiad gweler rhaglen waith ddrafft y Pwyllgor. Gwnaed ymgais i flaenoriaethu uchafswm o dair eitem fesul cyfarfod er mwyn sicrhau bod sylw teilwng yn cael ei roi i faterion a bod craffu yn gallu ychwanegu gwerth. Nid oedd hynny yn bosib ar bob achlysur gyda phedair eitem wedi eu rhaglennu ar gyfer un cyfarfod.

5. Fel y gwelir yn yr atodiad, nid yw'r eitemau 'Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur' a 'Cynllun Gwella Hawliau Tramwy' wedi eu rhaglennu ar gyfer cyfarfod penodol. Rhoddir ystyriaeth i pryd fyddai'n amserol i graffu'r eitemau yma yn ystod y flwyddyn gan anelu at dair eitem fesul cyfarfod er mwyn hwyluso trafodaeth fanwl ac effeithiol.

6. Mae'r blaenraglen craffu yn rhaglen fyw a fydd yn cael ei adolygu yn gyson yn ystod y flwyddyn i sicrhau bod y materion cywir yn cael sylw. Rhoddir ystyriaeth i flaenoriaethu materion a fydd yn codi yn ystod y flwyddyn e.e. materion o gyfarfodydd herio perfformiad ac eitemau ar flaenraglen y Cabinet.

7. **Gofynnir i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau fabwysiadu'r rhaglen waith ar gyfer 2022/23.**

ATODIAD

## BLAENRAGLEN DDRAFFT PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU 2022/23

| **28/09/2022** |
|---|
| • Adroddiad Blynyddol 2021/22 - Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn<br>• Biniau Halen a graeanu strydoedd cefn<br>• Datblygiadau yn y maes Cludiant Cyhoeddus |
| **27/10/2022** |
| • Datblygiadau cenedlaethol a lleol yng nghyswllt rheoli effaith ail gartrefi a llety gwyliau ar allu pobl leol i gael mynediad i gartrefi yn eu cymuned a'r Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig<br>• Strategaeth Llifogydd Lleol<br>• Cynllun Llesiant |
| **19/01/2023** |
| • Diweddariad Blynyddol gan Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol Gwynedd a Môn<br>• Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig<br>• Torri Gwair a Chynnal Tiroedd<br>• Gwasanaeth Casglu Gwastraff (gan gynnwys gorwariant a gwireddu arbedion) |
| **09/03/2023** |
| • Strwythur Llywodraethiant a Threfniadau Cyflawni Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn<br>• Glendid Stryd |

<u>Eitemau i'w rhaglennu</u>:

Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur

Cynllun Gwella Hawliau Tramwy